# GRIFFITHS, EZER (1888 - 1962), ffisegydd

**Enw:** Ezer Griffiths
**Dyddiad geni:** 1888
**Dyddiad marw:** 1962
**Rhiant:** Anne Griffiths
**Rhiant:** Abraham Lincoln Griffiths
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ffisegydd
**Maes gweithgaredd:** Gwyddoniaeth a Mathemateg
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd yn Aberdâr, Morgannwg, yn un o naw plentyn a'r hynaf o chwe mab Abraham Lincoln Griffiths a'i wraig Anne, 28 Tachwedd 1888. Addysgwyd ef yn ysgol uwchradd Aberdâr, a Choleg Prifysgol Deheudir Cymru, Caerdydd, lle y graddiodd yn B.Sc. gyda dosbarth cyntaf mewn ffiseg ac ennill ysgoloriaeth ymchwil ac yn ddiweddarach gymrodoriaeth Prifysgol Cymru a gradd D.Sc. Yn 1915 ymunodd â'r National Physical Laboratory yn Teddington lle y treuliodd weddill ei oes yn ymgodymu â phroblemau gwres. Daeth yn un o'r prif awdurdodau ar ynysiad gwres, anweddiad, a materion cysylltiol a fu'n gyfraniad gwerthfawr i fyd diwydiant. Yn 1923 yr oedd yn un o dîm a ddanfonwyd i Awstralia i astudio problem cludo afalau drwy wres y trofannau i Brydain. Saith mlynedd yn ddiweddarach aeth i Seland Newydd i ddelio â phroblemau allforio cig oen i'r wlad hon. Bu hefyd yn astudio problemau yngl n â'r cymylau tarth a ffurfir yn sgîl awyrennau, a bu'n ymchwilio i'r ffyrdd gorau i addasu tanciau at wasanaeth yng ngwres anialwch Libya yn ystod Rhyfel Byd II. Dyfarnwyd medal Moulton iddo ef ac R.W. Powell am eu cywaith ar anweddiad d r oddi ar arwynebau. Etholwyd ef yn F.R.S. yn 1926 a chafodd yr O.B.E. yn 1950. Ymddeolodd o'i swydd fel Prif Swyddog Gwyddonol hynaf adran ffiseg y Labordy Ffisegol Cenedlaethol yn 1953.

Bu farw yn ddibriod yn Teddington, 14 Chwefror 1962. Cyhoeddodd lyfrau - *Methods of measuring temperatures* (1918, ail arg. 1925, 3ydd arg. 1947), *Pyrometers* (1926), a *Refrigeration principles and practice* (1951) - a llu o bapurau technegol yn ei faes.

Brodyr iddo oedd Edgar A. Griffiths, ffisegydd i lywodraeth De Affrig, Jenkin Arthur Griffiths, gol. *Colliery Guardian*, a Roosevelt Griffiths, darlithydd mewn meteleg, Coleg y Brifysgol, Abertawe.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Biographical Memoirs of Fellows of the Royal Society*, 8

*Who's who in Wales*, (1937)

*Oxford Dictionary of National Biography* 1961-70, 459-60


## Darllen Pellach

Aberdare Boys Grammar School: Ezer Griffiths, OBE, DSc, FRS

Erthygl Wicipedia: Ezer Griffiths

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 111744445

Wikidata: Q5423242


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu